Cystadleuaeth Sgiliau Cymru | Skills Competition Wales

Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund

# Ffurflen B

## Briff y Gystadleuaeth

---

| Teitl a lefel y gystadleuaeth |
|---|
| Sgiliau Gwaith Coed Sylfaenol Lefel Mynediad 3 |

| Gofynion mynediad |
|---|
| Mae'r gystadleuaeth ar gyfer dysgwyr sy'n gweithio ar Lefel Mynediad 3. Os gwelir bod cystadleuydd yn gweithio uwchben y lefel hon, efallai y byddant yn cael eu cosbi.<br>Rhaid i gystadleuwyr fod yn 16 oed neu'n hŷn.<br>Gall uchafswm o 2 gystadleuydd fesul sefydliad ymgeisio.<br>Ymgeisiwch drwy fynd ar y system gofrestru ar-lein erbyn 20 Hydref 2018.<br>Rhaid cyflwyno datganiad o gefnogaeth sy'n amlinellu anghenion unigol y cystadleuydd o fewn y gystadleuaeth i anthony.warden@colegsirgar.ac.uk, neu bydd angen ei llenwi erbyn y diwrnod cyn dechrau'r gystadleuaeth. |

| Y manylyn |
|---|
| Bydd yn ofynnol i gystadleuwyr fesur, marcio allan a ffurfio rhai uniadau sylfaenol i greu blwch a chaead sylfaenol y gellir ei ddefnyddio (bydd cystadleuwyr yn mynd â’r dasg wedi’i chwblhau gartref ar ddiwedd y gystadleuaeth).<br>Bydd yn ofynnol hefyd i gystadleuwyr nodi 2 uniad haneru a'u cyflwyno ar gyfer marcio cyn ffurfio'r uniad trwy ddefnyddio offer llaw yn unig.<br>Hyd y gystadleuaeth: 3 awr.<br>Tasg 1<br>Ffurfiwch uniadau rhigol sylfaenol a chydosod y blwch gan ddefnyddio cynllun a fydd yn cael ei gyflwyno i gystadleuwyr ar ddiwrnod y gystadleuaeth. (Bydd yr holl gydrannau'n cael eu torri ymlaen llaw i hyd cywir gyda sylfaen o bren haenog tua 3mm dros faint i ganiatáu ar gyfer y gorffeniad).<br>Bydd y blwch yn cael ei roi at ei gilydd gan ddefnyddio uniadau rhigol, gyda'i sylfaen o bren haenog wedi'i gosod gan binnau panel.<br>Bydd holl fanylion saernïo yn cael eu datgelu ar ddiwrnod y gystadleuaeth. |

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Cystadleuaeth Sgiliau Cymru | Skills Competition Wales

Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund

Mathau o bren a ddefnyddir:
Ochrau, blaen a chefn y blwch: coed meddal p.a.r .
Gwaelod: pren haenog 6mm.
Caead i'w adeiladu drwy ddefnyddio ymylon 18mm a 6mm MDF, i'w gorffen gyda phlaen llaw.
Tasg 2
Gan ddefnyddio offer llaw yn unig, marcio allan a thorri 2 uniad haneru, sef un uniad haneru cornel a'r llall yn uniad haneru T (rhaid cydosod yr uniadau'n sych heb roi unrhyw lud)

## Marcio ac asesu

Caiff y cystadleuwyr eu hasesu ar y canlynol:

1. Paratoi Offer
2. Cyfathrebu
3. Gosod yr ardal waith
4. Marcio allan y cydrannau
5. Sgiliau Offer Llaw
6. Cydosod y Dasg
7. Taclusrwydd y gorffeniad
8. Tynnir marciau am ddarnau newydd

## Rheolau'r gystadleuaeth

- Bydd y cystadleuwyr yn derbyn cyfarwyddyd Iechyd a Diogelwch ar ddechrau'r gystadleuaeth.
- Bydd y cystadleuwyr yn dechrau ac yn gorffen eu gwaith yn ôl cyfarwyddyd y beirniaid
- Ni chaniateir defnyddio unrhyw offer trydanol. Dim ond offer llaw proffesiynol fydd yn cael eu defnyddio. Bydd yr holl rannau wedi cael eu peiriannu'n barod (plygu coed, rhigolau, morteisiau). Bydd y cystadleuwyr yn defnyddio offer llaw i gwblhau tasg 2, byddant yn cydosod y rhannau â llaw, ac i orffen byddant yn gwneud y sandio.
- Bydd y cystadleuwyr yn rheoli eu hamser er mwyn cwblhau'r blwch o fewn yr amser dynodedig. Argymhellir yn gryf bod y gwaith o gydosod a gludo'r rhannau yn cael ei wneud cyn egwyl y bore, fel bod y cystadleuwyr wedyn yn gallu tynnu'r clampiau i ffwrdd a chwblhau eu gwaith.

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Cystadleuaeth Sgiliau Cymru | Skills Competition Wales

Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund

 Os canfyddir unrhyw ddiffygion, bydd y cystadleuwyr yn gallu newid y rhannau cyn dechrau'r gystadleuaeth. Tynnir dau (2) bwynt am unrhyw geisiadau i newid rhannau unwaith bod y gystadleuaeth wedi dechrau. Heblaw hynny, dim ond un cais ar y mwyaf i newid rhannau a ganiateir.

- Mae'r cystadleuwyr yn cael defnyddio glud sy'n caledu'n gyflym.
- Bydd y beirniaid yn archwilio blychau offer y cystadleuwyr cyn y gystadleuaeth. Bydd unrhyw declyn sy'n rhoi mantais glir i'w ddefnyddiwr yn cael ei dynnu allan.
- Mewn achos o doriad trydan, cyfarpar yn torri lawr neu ddamwain, rhaid i'r cystadleuwyr weithredu yn ôl cyfarwyddyd y trefnydd.
- Yn ystod y gystadleuaeth, os bydd cystadleuydd yn teimlo bod rhaid gadael ei (g)waith (e.e. rhesymau meddygol, mynd i'r tŷ bach), bydd yr amser yn cael ei gofnodi ar ddalen ‘amser allan’ gan aelod o'r staff.
- Ni chaniateir ffonau symudol yn yr ystafell gystadlu
- Mae penderfyniad y beirniaid yn derfynol.
- Ni fydd cystadleuwyr sy'n cyrraedd yn hwyr ar gyfer y digwyddiad yn cael amser ychwanegol.
- Bydd ffotograffau'n cael eu cymryd yn ystod y digwyddiad ac efallai cânt eu defnyddio at ddibenion marchnata/cyhoeddusrwydd – os na fydd y cystadleuydd / staff cefnogi yn gallu cael tynnu eu lluniau, yna cyfrifoldeb y coleg sy'n cystadlu yn y gystadleuaeth yw rhoi gwybod i'r trefnwyr ymlaen llaw ac yn y digwyddiad.

Rhaid i gystadleuwyr dderbyn y gefnogaeth gytunedig a amlinellir yn eu datganiad cefnogaeth yn unig. Gallai cefnogaeth a welir i fod y tu hwnt i hynny a nodwyd yn y datganiad cefnogaeth arwain at ddiarddel y cystadleuydd o'r gystadleuaeth.

- Dylid rhoi gwybod i anthony.warden@colegsirgar.ac.uk yn y digwyddiad, faint o staff cefnogi fydd yn dod gyda'r cystadleuwyr o'ch sefydliad.

| **Manylion cyswllt** |
| --- |
| Am wybodaeth sy'n benodol i'r gystadleuaeth ranbarthol hon, cysylltwch ag arweinydd eich cystadleuaeth ranbarthol:<br>anthony.warden@colegsirgar. ac.uk |

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Cystadleuaeth Sgiliau Cymru | Skills Competition Wales

UNDEB EWROPEAIDD EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru Welsh Government

Cronfa Gymdeithasol Ewrop

I gael gwybodaeth am y cynnwys neu fanylion technegol y gystadleuaeth, cysylltwch ag arweinydd y gystadleuaeth genedlaethol

Paul Evans
Paul2.Evans@colegsirgar.ac.uk 01554 748032

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Cystadleuaeth Sgiliau Cymru | Skills Competition Wales

Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund

**Form B**

## Competition Brief

| **Competition title and level** |
| --- |
| Basic Woodworking Skills Entry Level 3 |

| **Entry requirements** |
| --- |
| he competition is for learners working at Entry Level 3. If a competitor is seen to be working above this level they may face being penalised.<br>Competitors must be 16 years of age or over.<br>A maximum of 2 competitors per organisation may enter.<br>Enter at online registration system by 20th October 2018<br>A statement of support that outlines any individual needs of the competitor within the competition<br>must be submitted to anthony.warden@colegsirgar.ac.uk or will need to be completed by the day prior to beginning the competition. |

| **The detail** |
| --- |
| Competitors will be required to measure, mark out and form some basic joints to create a basic box and lid that can be used (competitors will take the completed task home at the end of competition).<br>Competitors will also be required to mark out 2 halving joints and present for marking before forming the joint by the use of hand tools only.<br>Duration of competition: 3 hours.<br>Task 1<br>Form basic housing joints and assemble a box using a plan that will be presented to competitors on the day of the competition. (All components will be pre-cut to length with ply base approx. 3mm over size to allow for finishing).<br>The box will be assembled using housing joints, with its ply bottom fixed into position by panel pins.<br>All the fabrication details shall be revealed on the day of the competition. |

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Types of wood used:
Sides, front and back of the box: soft wood p.a.r .
Bottom: 6mm plywood.
Lid to be constructed using 18mm and 6mm MDF edges to be finished using hand plane.
Task 2
Mark out and cutting by hand tools only 2 halving joints, one corner and the other a tee halving
(joints to be assembled dry with no glue to be applied)

| **Marking and assessment** |
|---|
| Competitors will be assessed on the following:<br><br>1. Tool Preparation<br>2. Communication<br>3. Set up of Work Area<br>4. Mark out components<br>5. Hand Tool Skills<br>6. Assemble of Task<br>7. Neatness of Finish<br>8. Deductions will be made for new pieces |

| **Competition rules** |
|---|
| ☐ Competitors will receive a Health & Safety briefing at the start of the competition.<br>☐ Competitors will start and finish work as instructed by the judges<br>☐ The use of any electrical tool is forbidden. Only professional hand tools shall be used. All parts will already been machined (wood-bending, grooves, mortises). Competitors will use hand tools to complete task 2, assemble the parts by hand, and finally perform the sanding.<br>☐ Competitors will manage their time in order to complete the box within the allocated time. It is strongly recommended to perform the assembling and the gluing of the parts before the morning break, so that the competitors may then remove the clamps and complete their work.<br>☐ If any defects are found, competitors can have the parts replaced before the beginning of the competition. Two (2) points shall be deducted for any replacements |

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

requested once the competition has begun. Furthermore, competitors may only request the replacement of 1 parts maximum.

- Competitors are allowed to use a quick-setting glue.
- The judges will inspect the competitors' toolboxes before the competition. Any tool that give a clear advantage to its user will be removed.
- If there is a power stoppage, breakdown of equipment or accident, the competitors must act accordingly to the instruction of the organiser
- If during the competition a competitor feels they must leave their work (e.g. medical reasons, toilet break), they will have the time recorded on a 'time out' sheet by a member of staff
- No mobile telephones are allowed in the competition room
- The judges' decision is final.
- Competitors who arrive late for the event will not receive additional time.
- Photographs will be taken during the event that maybe used for marketing/publicity purposes –if the competitor / support staff cannot have their photo taken it is the responsibility of the college entering the competition to notify the organisers beforehand and at the event.

Competitors must only receive agreed support that is outlined in their support statement. Support that is deemed to be outside that given in the support statement could result in the competitor being disqualified from the competition.

- Please advise anthony.warden@colegsirgar.ac.uk prior to the event how many support staff will be accompanying the competitors from your organisation.

**Contact details**

For information specific to this regional competition, contact your regional competition lead:
anthony.warden@colegsirgar. ac.uk

For information about the content or technicalities of the competition, contact the national competition lead:
Paul Evans
Paul2.Evans@colegsirgar.ac.uk 01554 748032

Cystadleuaeth Sgiliau Cymru | Skills Competition Wales

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government